# Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## SJR(2)-03-06(p.4)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 9 Chwefror 2006 |
| **Lleoliad:** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| **Teitl:** | Datblygu Cynaliadwy: ‘Sut mae’r Portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn prif ffrydio Datblygu Cynaliadwy' |

**Diben**

1. Mae'r papur hwn yn rhoi golwg gyffredinol i'r Pwyllgor ar sut mae polisïau Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn cyfrannu at yr agenda Datblygu Cynaliadwy, a sut mae mentrau a rhaglenni’r maes yn prif ffrydio Datblygu Cynaliadwy.

**Crynodeb / Argymhellion**

2. Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys y papur hwn yn Atodiad 1.

**Cefndir**

3. Mae’r Portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn cyfrannu at agenda Datblygu Cynaliadwy drwy nifer o themâu o fewn y Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Cymru. Mae'r broses sy'n cael ei hamlygu yn yr adroddiad blynyddol cyntaf, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2005, yn dangos ymrwymiad parhaus.

**Camau i'r Pwyllgor Pwnc eu Cymryd**

4. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys y papur hwn.

**Edwina Hart AC**
**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**
**Swyddog Cyswllt: Emyr Roberts, Cyfarwyddwr Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (x 3634)**

## Atodiad 1

## Datblygu Cynaliadwy: ‘Sut mae’r Portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn prif ffrydio Datblygu Cynaliadwy'

## Tai, Adeiladu ac Ynni Domestig

### Tai

Mae'r Gyfarwyddiaeth Dai yn gyfrifol am reoleiddio'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) a’r Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol; am y broses o hyrwyddo a noddi Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru; am roi cyngor ar bolisïau adeiladu o fewn Llywodraeth y Cynulliad. Mae hefyd yn gyfrifol am y Polisi Ynni Domestig a'r broses o weithredu'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref. Drwy’r gweithgareddau hyn, mae'r Gyfarwyddiaeth yn cyfrannu'n gadarnhaol at agweddau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol datblygu cynaliadwy.

Ei brif argymhelliad, wrth roi cyngor ar bolisïau Tai Cymdeithasol, Adeiladu ac Ynni Domestig a pholisïau adeiladu Llywodraeth y Cynulliad, yw y dylai buddsoddiadau mewn adeiladu gael eu defnyddio i sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach, er mwyn cefnogi amcanion Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer datblygu cynaliadwy.

### Grant Tai Cymdeithasol / Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs)

Mae Llywodraeth y Cynulliad, yn rhinwedd ei rôl fel rheoleiddiwr, yn cyhoeddi Gofynion Ansawdd Datblygu, sy'n amlinellu'r safonau y mae'n rhaid eu cyrraedd wrth wneud gwaith datblygu sy'n cael ei ariannu gan y Grant Tai Cymdeithasol.

### Gofynion Ansawdd Datblygu (GAD)

Cafodd y GAD eu diwygio yn 2005, ac maent bellach yn gosod safonau perfformio ar gyfer cynaliadwyaeth o ran defnydd hirdymor (Safonau Cartrefi Gydol Oes), mynediad ar gyfer pobl anabl, gwell diogelwch ac effeithlonrwydd ynni. Mae'r rhain yn bodloni, yn fras, yr amcanion cymdeithasol ac amgylcheddol ar gyfer datblygu cynaliadwy.

### Caffael ym Maes Adeiladu

Er mwyn cynnal GAD, mae canllawiau wedi cael eu cyhoeddi ar ‘Arfer Gorau ar gyfer Caffael Adeiladu'. Mae'r rhain yn cynghori y gall Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy yn ei holl weithgareddau, a'i fod "yn synhwyrol o safbwynt busnes i’r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig fabwysiadu egwyddorion datblygu cynaliadwy o ran ei strategaeth, polisi a’i weithdrefnu ar gyfer caffael adeiladu".

Mae'n argymell, fel arfer gorau, y dylai Landlord Cymdeithasol Cofrestredig: "weithio tuag at sicrhau cynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol drwy gaffael adeiladu cynaliadwy a gwaith cynnal a chadw, gan wneud hynny hyd eithaf ei allu er budd ei gymuned leol", a: "bod hyn yn golygu hyrwyddo'r broses o ddatblygu cadwyni cyflenwi hirdymor a lleol; datblygu effeithlonrwydd ynni a'r defnydd o ddeunyddiau adeiladu adnewyddadwy; yn ogystal â datblygu'r broses o leihau gwastraff yn y broses adeiladu".

## Datblygu Partneriaethau

Mae'r canllaw hwn wedi cael ei atgyfnerthu yn ddiweddar o ganlyniad i'r ffaith bod consortia Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi datblygu'n bartneriaethau datblygu. Er mwyn ennill statws datblygwr wedi'i gymeradwyo, mae'n rhaid i gonsortia ddangos eu hymroddiad i'r broses o ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol a chyfleoedd i hyfforddi fel rhan o'u rhaglenni datblygu hirdymor.

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn enghraifft dda o sut y gall y manteision cymdeithasol ac economaidd sy'n dod yn sgîl buddsoddi mewn adeiladu gael eu datblygu i'r eithaf. Ym Mhen-y-bont mae'r rhaglen trosglwyddo stoc dai wedi rhoi cyfle i sefydlu canolfan hyfforddiant adeiladu, yn bennaf ar gyfer pobl yn y gymuned leol. Nid yn unig y mae hyn yn cyfrannu at leihau'r prinder byrdymor o weithwyr adeiladu, mae hefyd yn cynnig sgiliau defnyddiol a chyfleoedd gwaith hirdymor. Yn ogystal â hyn, mae Cymdeithas Dai V2C ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn datblygu cadwyni cyflenwi lleol, hirdymor, gan gyfrannu at gynnal yr economi leol.

## Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC): Manteision buddsoddi mewn adeiladu

Comisiynwyd Berkeley Hanover Consulting a Davis Langdon Management Consultancy gan y Rhaglen Dai i ganfod pa fanteision economaidd a chymdeithasol posib a allai gael eu creu gan raglenni adeiladu SATC. Mae hyn yn cefnogi polisi Llywodraeth y Cynulliad o ddefnyddio buddsoddiadau hirdymor i ysgogi adfywio economaidd cynaliadwy mewn cymunedau.

Mae'r adroddiad yn dangos y manteision economaidd a chymdeithasol posib a allai ddod yn sgîl buddsoddi mewn tai ar raddfa eang, a bellach mae hyn yn cael ei ddilyn gan y broses o baratoi canllawiau ymarferol, manwl ar gyfer awdurdodau lleol ynghylch sut y gallant wneud y gorau o'r manteision hynny.

## Adeiladu

## Polisi Adeiladu Llywodraeth y Cynulliad

Mae'r Gyfarwyddiaeth Dai (y Gangen Adeiladu ac Ynni Domestig) wedi bod yn arwain trafodaeth ar bolis?au Llywodraeth y Cynulliad ar brosiectau sy'n derbyn nawdd, er mwyn sicrhau bod buddsoddiadau cyfalaf yn cael eu defnyddio hyd yr eithaf i fodloni blaenoriaethau ac amcanion y Cynulliad ar gyfer Datblygu Cynaliadwy.

Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi paratoi adroddiad ar hyn, a gyflwynwyd i Is-bwyllgor y Cabinet ar Ddatblygu Cynaliadwy gan y Gweinidog, ac a fydd yn cael ei ddilyn gan adroddiad arall i'r Cabinet ar sut y gellid symud y mater hwn yn ei flaen.

## Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru

Mae'r Gyfarwyddiaeth Dai yn cefnogi ac yn ariannu'r Ganolfan ar gyfer Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru. Ei nod yw hyrwyddo egwyddorion 'Ailfeddwl am Adeiladu’ ac arfer gorau, o safbwynt dulliau adeiladu, yng Nghymru. Mae'r egwyddorion hyn yn cynnal diwydiant adeiladu cynaliadwy sy'n fwy cynhyrchiol a phroffidiol, yn fwy diogel, iach a chynhwysol, ac sy'n creu adeiladau o safon uwch. Maent yn seiliedig ar y broses o fabwysiadu mesurau ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus ac arferion caffael sy'n fwy hirdymor a chynaliadwy.

Mae Cam Gweithredu 9 yng Nghynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth y Cynulliad, sydd wedi’i ymrwymo i gydweithio ag Adeiladu Arbenigedd yng Nghymru ac eraill rhwng nawr a 2007, yn sicrhau bod yr amgylchedd sy'n cael ei adeiladu yn bodloni ein hamcanion ar gyfer datblygu cynaliadwy.

## Hyd yma, mae'r gwaith a wnaethpwyd gan Adeiladu Arbenigedd yng Nghymru yn cynnwys:

Adeiladu Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu Drafft i Gymru: Yn dilyn nifer o ddigwyddiadau ymgynghori ar gyfer y diwydiant, mae Tasglu Datblygu Cynaliadwy y Ganolfan wedi paratoi cynllun gweithredu drafft ar gyfer y diwydiant yng Nghymru. Mae’r cynllun hwn wedi llywio’r camau y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi’u cymryd trwy gyfrwng y Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy. Mae'r cynllun hwn hefyd yn sylfaen ar gyfer trafodaethau archwiliol sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd ynghylch sefydlu canolfan Datblygu Cynaliadwy i Gymru. Y rheini sy'n rhan o'r trafodaethau yw swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, Adeiladu Arbenigedd yng Nghymru, CRiBE (Cardiff Research into the Built Environment ym Mhrifysgol Caerdydd), Awdurdod Datblygu Cymru, y Gronfa Datblygu Gwybodaeth a Sefydliad Ymchwil Adeiladu Cymru.

Cynllun Gweithredu i Gymru ar Wastraff Adeiladu: Mae Cam Gweithredu 25 yng Nghynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth y Cynulliad wedi'i ymrwymo i annog y diwydiant adeiladu i fabwysiadu mesurau a fydd yn ei alluogi i leihau'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu drwy ddylunio ac adeiladu.

Mae Tasglu Gwastraff y Ganolfan wedi paratoi Cynllun Gweithredu i Gymru sy'n cael ei roi ar waith gan Adeiladu Arbenigedd, yn cael ei reoli'n llawnamser gan gydgysylltydd ac sy'n cael ei ariannu'n gychwynnol am ddwy flynedd gan Is-adran yr Amgylchedd. Bydd y cynllun yn cynorthwyo'r diwydiant adeiladu i wneud mwy o ddefnydd effeithiol o adnoddau ac i leihau'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu drwy ddylunio a'r broses adeiladu.

Clwb Meincnodi Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru: Roedd Cam Gweithredu 29 yng Nghynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r broses o sefydlu Clwb Meincnodi Adeiladu Arbenigedd yng Nghymru cyn diwedd 2004. Roedd hefyd yn annog holl sectorau'r diwydiant adeiladu i gymryd rhan yn y broses o fesur eu perfformiad yn erbyn safonau dangosyddion datblygu cynaliadwy y diwydiant. Gyda chymorth grant gan Lywodraeth y Cynulliad, sefydlwyd Clwb Meincnodi Adeiladu Arbenigedd yng Nghymru ym mis Tachwedd 2005. Mae'n cynnwys 23 aelod, ac mae disgwyl y bydd aelodau o Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ymuno yn 2006.

Prosiect ‘Adeiladu Cymru’ Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF): Mae Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru, gydag Asiantaeth Datblygu Cymru a Sgiliau Adeiladu-Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu, yn mynd â'r prosiect hwn yn ei flaen, gan gynorthwyo'r broses o wella perfformiad busnesau adeiladu bach. Bydd y prosiect hefyd yn cynorthwyo'r broses o ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol sy'n defnyddio mwy o fusnesau lleol, gan eu cynorthwyo i adfywio'u cymunedau eu hunain a chynyddu effaith ein buddsoddiadau ym maes adeiladu.

Strategaeth Iechyd a Diogelwch ym maes Adeiladu: Mae Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru yn cydweithio â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch er mwyn paratoi strategaeth i Gymru, ac i wella amodau gwaith a delwedd gyffredinol y diwydiant. Mae hyn yn cynnal yr amcanion datblygu cynaliadwy cymdeithasol, sef sicrhau safonau byw a chynwysoldeb gwell.

## Ynni Domestig

Mae ‘Deg Ymrwymiad Pwysicaf’ y Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy yn cynnwys dwy weithdrefn ar gyfer Tai sy'n ymwneud ag ynni ac sy'n anelu at leihau faint o garbon deuocsid sy'n cael ei ryddhau. Mae cynhyrchu ynni sy'n cynnwys lefelau isel o garbon, ac effeithlorwydd ynni, yn cael eu hystyried fel y prif ddulliau ar gyfer sicrhau fod economi Cymru yn economi rhad-ar-garbon, ac ar gyfer bodloni ein dyletswyddau datblygu cynaliadwy.

Ynni Adnewyddadwy: Mae ymrwymiad 4 yn nodi y byddwn, erbyn gwanwyn 2005, yn sefydlu 'prosiectau peilot ar gyfer archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio atebion ynni adnewyddadwy yn ein polisïau a'n rhaglenni sy'n mynd i'r afael â thlodi tanwydd mewn cartrefi incwm isel, yn arbennig y rheini nad ydynt yn medru manteisio ar atebion traddodiadol i'r broblem’. Mae'r broses o ymgynghori â phartneriaid wedi cychwyn, a bydd detholiad o dechnolegau ac o fanylion ar gyfer systemau yn cael eu datblygu yn fuan yn 2006.

Effeithlonrwydd Ynni: Mae Ymrwymiad 10 yn nodi y byddwn, erbyn gwanwyn 2005, yn cyflwyno dull asesu amgylcheddol 'EcoGartref' ar gyfer pob cartref newydd sy'n cael ei adeiladu yng Nghymru gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig drwy ddefnyddio arain y Grant Tai Cymdeithasol. Byddwn hefyd yn gosod safonau effeithlonrwydd ynni gryn dipyn yn uwch na'r hyn sy'n ofynnol yn y rheoliadau adeiladu ar hyn o bryd. Mae'r broses ymgynghori wedi cychwyn, a bydd y detholiad o dechnolegau ac o fanylion ar gyfer systemau yn cael eu datblygu yn fuan yn 2006.

Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC): Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ei gwneud hi'n ofynnol i landlordiaid cymdeithasol sicrhau bod eu holl eiddo yn bodloni Safonau Ansawdd Tai Cymru erbyn 2012. Mae'r Safonau'n nodi'n glir y dylai catrefi fod wedi'u gwresogi, yn effeithlon o ran tanwydd ac wedi'u hinsiwleiddio'n dda.

Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref Cymru: Mae gwerth oddeutu £24m y flwyddyn ar gael i gartrefi yng Nghymru drwy gyfrwng Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cymru a'r Ymrwymiad Effeithlonrwydd Ynni. Mae cydweithio er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau hyn yn allweddol ar gyfer gweithredu mesurau effeithlonrwydd ynni, fel y gall pobl Cymru fwynhau gwres fforddiadwy.

## Cymunedau

## Strategaeth Mentrau Cymdeithasol

Mae'r Strategaeth Mentrau Cymdeithasol yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gweld mentrau dynamig a chynaliadwy yn cryfhau economi gynhwysol sydd ar ei phrifiant. Mae'r Strategaeth yn cydnabod bod mentrau cymdeithasol yn cynorthwyo'r broses o gyflawni polisi Llywodraeth y Cynulliad ar fynd i'r afael â thlodi, ac i roi modd i'r bobl eu hunain ac i'w cymunedau i ymladd tlodi.

Mae gan fentrau cymdeithasol rôl bwysig i'w chwarae yng Nghymru. Maent yn cynorthwyo'r broses o fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol, gan roi modd i bobl sydd wedi'u hynysu yn ariannol i ddychwelyd i fyd gwaith. Maent hefyd yn cyfrannu at y broses o greu economi gref, gynaliadwy a chynhwysol yn seiliedig ar linellau deublyg neu driphlyg o amcanion ariannol, cymdeithasol ac, yn amlach na pheidio, amgylcheddol . Mae llawer o'n mentrau cymdeithasol llwyddiannus yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu cynaliadwy yn yr ystyr ehangaf, yn ymwneud ag ailgylchu, cwmnïau bwyd cydweithredol, gofal plant a diogelu’r amgylchedd.

Nid peth newydd yw'r syniad o fenter gymdeithasol; ceir nifer o enghreifftiau o fentrau cymdeithasol llwyddiannus ledled Cymru. Mae pob menter yn wahanol; mae rhai'n fawr, ac eraill yn fach, ac mae gan bob un ei ddull ei hun o weithredu. Pan gaewyd y siop leol a'r swyddfa bost yn Llanddaniel Fab ar Ynys Môn, prynodd ac adnewyddodd y bobl leol hen Efail yn y pentref rhag iddynt golli'r rhan hanfodol hon o fywyd y pentref. Mae'r siop/swyddfa bost hon yn cyflogi 2 o bobl leol ac yn sicr wedi profi ei gwerth fel ateb cynaliadwy. Mae cwmni Pack-IT yng Nghaerdydd yn enghraifft o gwmni a busnes cymdeithasol mwy sy'n cynnig gwasanaethau postio, storio a dosbarthu, yn ogystal â gwasanaeth ar-lein. Mae hanner yr 21 aelod o staff sy'n cael eu cyflogi gan Pack-IT naill ai'n dioddef o syndrom Down, bron yn gyfan gwbl fyddar neu'n dioddef o broblemau ymddygiad neu anawsterau dysgu. Cafodd yr hyn a gyflawnwyd gan Pack-IT y llynedd ei gydnabod wrth iddo ennill gwobr Cwmni Cymdeithasol Ewropeaidd y flwyddyn.

Rydym yn awyddus i adeiladu ar ein llwyddiant presennol ac i greu amgylchedd lle y gall holl fentrau

cymdeithasol Cymru flodeuo a thyfu. O ran Llywodraeth Cynulliad Cymru yn benodol, mae hyn yn golygu chwalu'r rhwystrau sydd ar hyn o bryd yn atal y broses o ddatblygu'r sector - er enghraifft, materion cyfreithiol a rheoleiddiol. Mae Cyd-weithgor Mentergarwch Cymdiethasol wedi sefydlu rhai blaenoriaethau ar gyfer gweithredu; er enghraifft, caffael, cyllid, trosglwyddo asedau a mentora. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf yr is-grwp Cyllid ar 13 Ionawr, lle archwiliwyd dulliau i ddatblygu arbenigedd; e.e. ar Fentrau Cyllid Datblygu Cymunedol a phartneriaethau bancio cymunedol.

## Cymunedau yn Gyntaf

Nod rhaglen Cymunedau yn Gyntaf y Cynulliad yw adeiladu cymunedau cryf a chynaliadwy yn y mannau mwyaf difreintiedig ar draws Cymru. Mae'r arian sy'n cael ei ddarparu gan Cymunedau yn Gyntaf wedi'i gyfyngu ac yn canolbwyntio ar wariant a fydd yn datblygu gallu aelodau'r gymuned a phartneriaethau. Mae hefyd yn canolbwyntio ar y staff a'r costau cynnal sy'n fodd i'r bartneriaeth weithredu. Nod y Bartneriaeth yw canfod beth yw dyheadau'r gymuned ac i gydweithio â phartneriaid allweddol er mwyn datblygu a rhoi rhaglen o gamau ar waith i sicrhau bod y dyheadau hynny'n cael eu gwireddu. Er mwyn gwneud hyn mewn modd cynaliadwy, mae arian yn cael ei ddarparu i sicrhau bod aelodau'r partneriaethau yn cael mwy o hyder, profiad, arbenigedd a sgiliau i'w galluogi i gysylltu a chydweithio â phartneriaid allweddol, a dylanwadu arnynt.